




Gallwch lawrlwytho'r lluniau yn rhad ac am ddim o www.freebibleimages.org ar ffurf PowerPoint, Keynote, JPEG neu PDF. Mae'r Cynllun Stori yma yn dangos be sy'n digwydd ym mhob rhan o'r hanes. Darllenwch yr hanes yn y Beibl ac wedyn penderfynwch sut dych chi am gyflwyno'r stori. Mae yna le i chi sgwennu nodiadau. Gallwch ddileu unrhyw luniau/sleidiau nad ydych chi am eu defnyddio, ac ychwanegu lluniau eich hun fel bydd angen.

Disgrifiad	Llun	Nodiadau
1 Brenhinoedd 5-9; 2 Cronicl 2-7	An illustration showing King Solomon on the right, wearing a green and red robe, pointing towards a large, ornate temple structure on the left. The temple has multiple columns and a central entrance. The sky is blue with some clouds. Text at the bottom of the illustration reads '1 Kings 5-9, 2 Chronicles 2-7 KING SOLOMON BUILDS THE TEMPLE' and 'www.freebibleimages.org'.	
1 Nid oedd Duw wedi caniatáu i Dafydd adeiladu teml yn Jerwsalem. Ond roedd Dafydd wedi paratoi llain o dir i'w fab Solomon ddefnyddio i adeiladu teml i'r Arglwydd.	An illustration of King David on the right, wearing a green and red robe, pointing towards a large, ornate temple structure on the left. The temple has multiple columns and a central entrance. The sky is blue with some clouds. Text at the bottom of the illustration reads '1 Kings 5-9, 2 Chronicles 2-7 KING SOLOMON BUILDS THE TEMPLE' and 'www.freebibleimages.org'.	
2 Cyn iddo farw roedd Dafydd wedi rhoi cynlluniau a chyfarwyddiadau i'w fab Solomon ynglŷn ag adeiladu'r deml. Dwedodd wrth Solomon, "Bydd yn gryf a dewr! Bwrw iddi! Paid bod ag ofn na panicio! Mae'r ARGLWYDD Dduw, fy Nuw i, gyda ti. Fydd e ddim yn dy adael di nac yn troi cefn arnat ti nes bydd y gwaith yma i gyd ar deml yr ARGLWYDD wedi ei orffen."	An illustration showing King David on the left, wearing a blue and red robe, talking to Solomon on the right, who is wearing a green and red robe. They are standing in front of a large, ornate temple structure. The sky is blue with some clouds.	

-
- 3 Dyma Solomon yn anfon neges at Hiram, brenin Tyrus: "Dw i'n mynd i adeiladu teml wych i'r Arglwydd, am fod ein Duw ni yn fwy na'r duwiau eraill i gyd. Anfon grefftwr medrus ata i sy'n gweithio gydag aur, arian, pres a haearn, a hefyd lliain porffor, coch a glas, ac yn gallu cerfio. Ac mae gen ti weision sy'n arbenigo mewn trin coed yn Libanus. Felly anfon goed i mi hefyd — cedrwydd, pinwydd, a pren algwm. Gwna i dalu i dy weision di am dorri'r coed — dwy fil o dunelli o wenith, dwy fil o dunelli o haidd, cant dau ddeg mil o alwyni o win, a cant dau ddeg mil o alwyni o olew olewydd."




-
- 4 Atebodd Hiram, "Gwnawn ni ddarparu'r holl goed sydd gen ti ei angen o Libanus, a'i anfon dros y môr ar rafftiau i Joppa. Gelli di wedyn drefnu i symud y cwbl i Jerwsalem."



-
- 5 Roedd gan Solomon 70,000 o labrwyd, 80,000 i weithio yn y chwareli yn y bryniau, a 3,600 ohonyn nhw yn arolygwyr i wneud yn siŵr fod y gwaith i gyd yn cael ei wneud.



-
- 6 A dyma fesuriadau Deml: 27 metr o hyd a 9 metr o led. Roedd y cyntedd o flaen y deml yn 9 metr o hyd, yn erbyn ffrynt y deml, ac roedd yn 9 metr o uchder. Roedd tu mewn yr ystafell wedi ei gorchuddio gydag aur pur.



-
- 7 Gwnaeth y cysegr mwyaf sanctaidd yn naw metr o hyd a naw metr o led, a'i orchuddio gyda 20 tunnell o aur pur. Ac roedd wedi gorchuddio'r ystafelloedd uchaf gydag aur hefyd.




-
- 8 Yna yn y cysegr mwyaf sanctaidd gwnaeth ddau geriwb a'i gorchuddio nhw gydag aur. Gwnaeth len o ddefnydd glas, porffor, coch a lliain main, gyda lluniau o geriwbiaid wedi ei frodio arno.



-
- 9 Yna dyma fe'n gwneud basn anferth i ddal dŵr. Roedd hwn wedi ei wneud o bres wedi ei gastio, ac yn cael ei alw "Y Môr". O gwmpas "Y Môr", o dan y rhimyn, roedd dwy res o addurniadau bach yn edrych fel teirw, un bob rhyw bedwar centimetr a hanner. Roedd "Y Môr" wedi ei osod ar gefn un deg dau ychen. Gwnaeth ddeg dysgl bres hefyd, a gosod pump ar ochr y de a pump ar ochr y gogledd. Yna dyma fe'n gwneud deg stand aur i ddal lampau, yn unol â'r patrwm, a'u gosod yn y deml. Buon nhw'n adeiladu'r deml am 7 mlynedd.




-
- 10 Yna dyma Solomon yn galw arweinwyr Israel ato i Jerwsalem. Roedd Arch Ymrwymiad yr ARGLWYDD i gael ei symud o Ddinas Dafydd i'w chartref newydd yn y deml. Roedd pobl Israel i gyd wedi dod at y brenin adeg Gŵyl y Pebyll yn y seithfed mis.



-
- 11 A dyma'r offeiriaid yn dod ag Arch Ymrwymiad Duw i mewn a'i gosod yn y Lle Mwyaf Sanctaidd, o dan adenydd y ceriwbiaid.



-
- 12 Dyma'r offeiriaid yn dod allan o'r Lle Sanctaidd. Roedd pob un ohonyn nhw wedi cysegru eu hunain. Roedd cerddorion yn molli'r ARGLWYDD a chanu'r geiriau, "Mae e mor dda aton ni; Mae ei haelioni yn ddiidwedd!" Tra roedden nhw'n canu fel hyn daeth cwmwl a llenwi'r deml.



-
- 13 Yna dyma'r brenin yn troi i wynebu'r gynulleidfa a bendithio holl bobl Israel oedd yn sefyll yno: "Bendith ar yr ARGLWYDD, Duw Israel! Mae wedi gwneud y cwbl roedd wedi ei addo i Dafydd fy nhad."



-
- 14 Yna o flaen pawb, dyma fe'n mynd i sefyll o flaen yr Allor. Safodd ar y llwyfan, yna mynd ar ei liniau o flaen pobl Israel i gyd, a codi ei ddwylo i'r awyr a gweddïo, "Cadw dy lygaid ar y deml yma nos a dydd. Gwranda ar beth mae dy was a dy bobl Israel yn ei weddïo'n daer am y lle yma. Gwranda yn y nefoedd, lle rwy'ti'n byw. Clyw ni a maddau i ni." Dyma'r brenin Solomon yn lladd 22,000 o wartheg a 120,000 o ddefaid. Dyna sut gwnaeth Solomon, a'r holl bobl, gyflwyno'r deml i Dduw.



-
- 15 Roedd Solomon wedi gorffen adeiladu teml yr ARGLWYDD a palas y brenin. A dyma'r Arglwydd yn dod at Solomon yn y nos a dweud, "A dw wedi cysegru'r deml yma rwy'ti wedi ei hadeiladu yn lle i mi fy hun am byth. Bydda i yna bob amser. Dw i eisiau i ti fyw fel gwnaeth dy dad Dafydd, a gwneud popeth dw i'n ddweud — bod yn ufudd i'r rheolau a'r canllawiau dw i wedi eu rhoi. Yna bydda i'n gwneud i dy deulu di deyrnasu fel gwnes i addo i Dafydd dy Dad: 'Un o dy deulu di fydd yn teyrnasu ar Israel am byth.'



-
- 16 "Ond os byddwch chi yn troi cefn arna i, a ddim yn dilyn y canllawiau a'r rheolau dw i wedi eu rhoi i chi; os byddwch chi'n addoli duwiau eraill, yna bydda i yn eu chwynnu nhw o'r tir dw i wedi ei roi iddyn nhw. Bydda i'n troi cefn ar y deml yma dw i wedi chysegru i mi fy hun. Bydd y deml yma yn bentwr o gerrig."



-
- 17 Cyfieithwyd gan www.beibl.net



These illustrations are the copyright of Sweet Publishing and licensed by FreeBibleImages for free download under the terms of the Creative Commons Attribution-ShareAlike 3.0 unported license.

www.freebibleimages.org
